# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 26 Medi 2016

## SL(5)015 – Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru) (Diwygio) 2016

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio paragraff 4 o Atodlen 17 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, drwy newid disgrifiad un o'r cyrff a restrir yn yr Atodlen honno. Mae'r cyfeiriad at Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi ei ddiwygio er mwyn cyfeirio at Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Mae hyn yn dilyn ailenwi'r corff corfforaethol hwnnw o dan adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Llywodraeth Cymru 1998

**Fe'u gwnaed ar:** dyddiad heb ei nodi
**Fe'u gosodwyd ar:** 13 Medi 2016
**Yn dod i rym ar:** 7 Hydref 2016